# Pwyllgor Craffu - Lle, Cynaliadwyedd a Newid yn yr Hinsawdd

## Adroddiad Blynyddol

## Y Broses Graffu yn Sir Gaerfyrddin

onestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Unio
yloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bo
gored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro G
yfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestr
niondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloy
od yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Mo
wella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro G
yfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestr
niondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloy
od yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Mo
wella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi

sirgar.gov.uk

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

## Cynnwys


Rhagair gan y Cadeirydd ..... 3
1. Cyflwyniad ..... 4
2. Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2024/25 ..... 4
2.1 Rôl Craffu ..... 4
2.2 Y Blaengynllun Gwaith ..... 6
2.3 Cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd ..... 6
2.4 Monitro Perfformiad / Materion Strategol ..... 6
2.4.1 Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2023/24 ..... 7
2.4.2 Cynlluniau Busnes Is-adrannol Drafft 2025/26 ..... 7
2.4.3 Adroddiadau Perfformiad 2024/25 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor ..... 8
2.5 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf ..... 8
2.5.1 Adroddiadau Monitro'r Gyllideb ..... 8
2.5.2 Strategaeth Cyllideb Refeniw 2025/26 tan 2027/28 ..... 9
2.6 Adroddiadau cyn gwneud penderfyniadau ..... 10
2.6.1 Strategaeth Farchogaeth ..... 10
2.6.2 Strategaeth Wastraff Sir Gaerfyrddin – Gweithredu Glasbrint ..... 10
2.6.3 Strategaeth Coed a Choetir ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin ..... 11
2.7 Adroddiadau Ychwanegol ac Adroddiadau Diweddaru ..... 12
2.7.1. Diweddariad ar gyfer Ystyried Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoedus Ychwanegol (PSPO) ar gyfer Gorchmynion Cŵn Sir Gaerfyrddin ..... 12
2.7.2 Adolygiad o'r Strategaeth Barcio ..... 12
2.7.3 Yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i gyflymu'r defnydd o ynni adnewyddadwy ar draws ei sylfaen asedau ..... 13
2.7.4 Adroddiad cynnydd – Adolygiad Gorchwyl a Gorffen ar Dipio Anghyfreithlon ..... 13
2.7.5 Adroddiad Datganiad Blynyddol 2024 y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd ..... 14
2.7.6 Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Drafft ar gyfer De-orllewin Cymru ..... 14
2.7.7 Gwaith a wnaed mewn perthynas â gwerthu fêps anghyfreithlon a gwerthu fêps i rai dan oedran 17
2.7.8 Adolygiad o'r Gwasanaeth Gwastraff ..... 17
3. Gweithgarwch Craffu Arall ..... 18
3.1 Gorchwyl a Gorffen ..... 18
3.2 Ymweliadau Safle ..... 19
3.3 Sesiynau Datblygu ..... 20
4. Effaith ..... 21
4.1 Sut mae Craffu wedi gwneud gwahaniaeth eleni? ..... 21
5. Ymgysylltu â'r Cyhoedd ..... 22
6. Heriau ..... 22
7. Gwaith yn y Dyfodol ..... 22
8. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu ..... 23

9. Presenoldeb ........................................................................................................ 24

## Rhagair gan y Cadeirydd



Mae’n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd ar gyfer blwyddyn y cyngor 2024/25.

Mae’r adroddiad yn dangos yr amrywiaeth fawr o waith y mae’r pwyllgor craffu wedi’i wneud yn ystod y cyfnod rhwng Mai 2024 ac Ebrill 2025.

Datblygodd y Pwyllgor Flaengynllun Gwaith cynhwysfawr ar gyfer blwyddyn y cyngor 2024/25, a alluogai'r Aelodau i werthuso ystod o faterion perthnasol sy'n effeithio ar gymunedau Sir Gaerfyrddin, ochr yn ochr ag adolygu Adroddiadau Blynyddol y Cyngor, Cynlluniau Busnes Is-adrannol, ac Adroddiadau Monitro Perfformiad sy'n berthnasol i'r Pwyllgor.

Cymerodd y Pwyllgor, gan fod yr aelodau'n ymwybodol iawn o heriau parhaus y gyllideb o'r naill flwyddyn i'r llall, ddiddordeb brwd mewn craffu ar adroddiadau monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf. Cymerodd y pwyllgor gryn sylw o waith Strategaeth Cyllideb Refeniw 2025/26 tan 2027/28. Drwy fynychu'r ymgynghoriadau cyllideb a chraffu ar y cynigion arbedion effeithlonrwydd, llwyddodd y pwyllgor hwn i waredu'r cynigion i wneud toriadau o ran priffyrdd.  Fel Cadeirydd, rwy'n ymfalchïo yn y gwaith sydd wedi'i wneud a'r cyfle i lunio penderfyniadau polisi dros y flwyddyn ddiwethaf.

Ym mis Ebrill 2025, gorffennodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ei adolygiad o swyddogaeth trwyddedu a bridio cŵn y tîm Iechyd Anifeiliaid, Materion Defnyddwyr a Busnes. Hoffwn ddiolch yn fawr i aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a'r swyddogion am eu hymdrechion diwyd ar y mater pwysig a sensitif hwn. Fel Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, rwy'n barod i gyflwyno'r adroddiad a'r argymhellion i'r Pwyllgor Craffu i'w hadolygu, ac wedyn i'r Cabinet. Y disgwyl yw y bydd y saith argymhelliad cenedlaethol yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn ddiweddarach eleni, gyda'r bwriad o ddylanwadu ar bolisi i wella arferion bridio a thrwyddedu cŵn yn Sir Gaerfyrddin a Chymru.

Diolch o galon i'r holl swyddogion o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd am eu proffesiynoldeb a'u cefnogaeth barhaus dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r modd rydych wedi darparu gwybodaeth dechnegol a gweithredol fanwl ar gais wedi bod yn hanfodol bwysig. Yn ogystal, rwyf am ddiolch i Aelodau'r Cabinet am eu cydweithrediad a'u cefnogaeth wrth weithio gyda'r Pwyllgor Craffu.  Diolch i’m Is-gadeirydd, y Cynghorydd Karen Davies am ei chefnogaeth amhrisiadwy a’i chefnogaeth trwy gydol y flwyddyn.  I gloi, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i holl Aelodau’r Pwyllgor am eich proffesiynoldeb a’ch gwaith craffu rhagorol unwaith eto yn y flwyddyn ddiwethaf.

Anrhydedd a braint i mi yw cael gwasanaethu unwaith yn rhagor fel Cadeirydd y Pwyllgor hwn yn y flwyddyn i ddod.

**Y Cynghorydd Kevin Madge**
**Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd 2024/2025**

# 1. Cyflwyniad

Mae'r swyddogaeth Graffu yn elfen allweddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor Sir a'i broses o wneud penderfyniadau. Er nad yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau, mae Craffu yn fwyaf effeithiol pan fydd yn manteisio ar y potensial i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan y Cyngor a chyrff partner ar draws y sir.

Mae Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl Bwyllgorau Craffu *"baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol"*.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25. Ei nod yw rhoi cyfle i aelodau fwrw golwg ar ei gyflawniadau, nodi meysydd arferion gorau a thynnu sylw at feysydd i'w gwella er mwyn gwella'r swyddogaeth graffu ymhellach. Yn ogystal, efallai y bydd yr adroddiad hwn yn hwyluso trafodaeth ar eitemau y gellid eu nodi i'w cynnwys mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Cadeirydd y Pwyllgor yw'r Cynghorydd Kevin Madge ac mae'n cynnwys 14 o Aelodau Etholedig. Mae Aelodau'r Cabinet yn mynychu cyfarfodydd fel sy'n ofynnol er mwyn annerch y Pwyllgor ar feysydd yn eu portffolios priodol.

Darperir cymorth gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd a Swyddogion eraill y Cyngor, pan fo angen.

# 2. Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2024/25

## 2.1 Rôl Craffu

Diweddarwyd meysydd gorchwyl y Pwyllgorau Craffu gan y Cyngor yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022 a daeth pob Pwyllgor Craffu yn gyfrifol am graffu ar Bortffolios Penodol y Cabinet a'u gwasanaethau perthnasol a chael trosolwg ohonynt. Mae'r Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd yn gyfrifol am graffu ar y meysydd gwasanaeth canlynol fel y nodir isod:-

**Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd –**
**Y Cynghorydd Aled Vaughan Owen**

| | |
|---|---|
| Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd | Materion Niwsans Statudol (Sŵn, anifeiliaid anwes, gerddi wedi gordyfu) |
| Datgarboneiddio | Diogelu'r Cyhoedd |
| Bioamrywiaeth (argyfwng natur) | Arweinydd Datblygu Cynaliadwy |
| Polisi Trwyddedu | Tipio Anghyfreithlon |
| Safonau Masnach | Gorfodi Materion Amgylcheddol |
| Gwastraff Di-drwydded | Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 |
| Ansawdd Aer | Strategaeth Clefyd Coed Ynn |
| Economi Gylchol | Safonau Bwyd |
| Iechyd yr Amgylchedd | Cynlluniau Argyfwng |
| Rheoli Llifogydd a Glannau | Hawliau Tramwy Cyhoeddus |

| | |
|---|---|
| Amddiffynfeydd Arfordirol | Mynediad i Gefn Gwlad |

**Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith - Y Cynghorydd Edward Thomas**

| | |
|---|---|
| Sbwriel | Trafnidiaeth Teithwyr a Chymunedol |
| Glanhau Strydoedd | Strategaeth Ansawdd yr Amgylchedd a Sbwriel |
| Gwasanaethau Priffyrdd a Thrafnidiaeth | Gwasanaethau torri gwair |
| Cynnal a Chadw Tiroedd | Atgyweirio a chynnal a chadw seilwaith |
| Gwasanaethau Adeiladu a Rheoli Ystadau (ac eithrio'r stoc dai) | Sbwriel a Glanhau'r Gymuned |
| Pontydd | Polisi Trafnidiaeth Rhanbarthol |
| Teithio Llesol a Llwybrau Mwy Diogel | Cynnal a Chadw Parciau |
| Rheoli'r Fflyd (gan gynnwys adnewyddu a chynnal a chadw) | Cydweithio Rhanbarthol ar gyfer Trafnidiaeth, Priffyrdd a Gwastraff |
| Amlosgfa Arberth | Cludiant Ysgol |
| Apeliadau Cludiant Ysgol | Gwasanaethau stryd |
| Gofalu am Adeiladau a'u Glanhau | Rheoli Gwastraff |
| Gwasanaethau Parcio gan gynnwys Polisi, Rheoli a Gorfodi | Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref |
| Gwasanaethau Ailgylchu | |

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet canlynol adroddiadau/rhannau o adroddiadau sydd o fewn ei bortffolio ac sy'n rhan o faes gorchwyl y Pwyllgor Craffu.

**Aelod Cabinet dros Adnoddau - Y Cynghorydd Alun Lenny**

| | |
|---|---|
| Strategaeth Gyllid a'r Gyllideb | Rhaglen Gyfalaf |
| Cyllid Strategol (Prosiectau Corfforaethol) | Cyflawni Arbedion |
| Gwasanaethau Ariannol | Budd i'r Gymuned |
| Comisiynu a Chaffael | |

**Diogelwch Cymunedol / Troseddau ac Anrhefn –**

Un o rolau allweddol y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd yw ei waith fel y Pwyllgor sy’n Craffu ar Droseddau ac Anhrefn yn y Cyngor. Mae gan y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd Gylch Gorchwyl ychwanegol penodol lle mae ganddo bwerau ychwanegol sy'n ymwneud â throsedd ac anhrefn (6.4 o fewn y Cyfansoddiad).

Yn unol â'i feysydd cyfrifoldeb, bydd y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd yn ceisio:-

- Archwilio pa mor dda y mae'r Cabinet a'r Cyngor yn perfformio;
- Dwyn y Cabinet i gyfrif a cheisio hyrwyddo proses benderfynu sy’n agored ac yn dryloyw;
- Monitro perfformiad gwasanaethau a swyddogaethau’r Cyngor;

- Adolygu penderfyniadau'r Cabinet lle bo hynny'n briodol;
- Cynorthwyo'r Cabinet i ddatblygu, monitro, ac adolygu polisïau;
- Craffu ar y strategaeth cyllideb refeniw a'r rhaglenni buddsoddiadau cyfalaf arfaethedig, a hynny fel rhan allweddol o'r broses ymgynghori;
- Galluogi sefydliadau a phartneriaid allanol i gyfrannu at y gwaith o ystyried materion a all effeithio ar y modd y cyflawnir blaenoriaethau'r Cyngor a'r sir gyfan.

## 2.2 Y Blaengynllun Gwaith

Mae'r broses graffu yn chwarae rhan allweddol o ran hyrwyddo atebolrwydd ym mhroses gwneud penderfyniadau yr Awdurdod Lleol. Hefyd mae'r broses yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac annog cydweithio ag asiantaethau allanol.

Er mwyn i'r Pwyllgorau Craffu gymryd mwy o berchnogaeth o'u Blaengynlluniau Gwaith eu hunain, cyflwynwyd dull craffu cyn gwneud penderfyniadau ym mis Medi 2022 sy'n caniatáu i Bwyllgorau Craffu benderfynu pa adroddiadau o Flaengynllun Gwaith y Cabinet y maent am eu gweld yn dod ger eu bron. Yn ôl y drefn arferol, mae Pwyllgorau hefyd yn gallu nodi eu pynciau eu hunain ac mae'r Cabinet yn dal i allu gwahodd Pwyllgor Craffu i graffu ar benderfyniad oedd ar y gweill.

Defnyddiodd y Pwyllgor fframwaith Gateway y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu i ddatblygu ei Flaengynllun Gwaith ar gyfer blwyddyn y cyngor 2024/25 a adolygwyd yn rheolaidd. Roedd hyn yn darparu dull hawdd ei reoli, hyblyg a chadarn o graffu ac yn sicrhau bod y meysydd i'w hadolygu yn cael eu hystyried ar sail blaenoriaeth ac mewn modd amserol.

Yn hyn o beth, penderfynodd y Pwyllgor ddosbarthu adroddiadau cyfnodol ynghylch perfformiad a monitro'r gyllideb i aelodau y tu allan i'r rhaglen cyfarfodydd ffurfiol. Roedd y broses hon yn golygu bod modd gosod unrhyw faterion perthnasol a nodwyd gan aelodau ar yr agenda ffurfiol i'w hystyried ymhellach, fel y bo'n briodol. Arweiniodd manteision y dull hwn o weithio at wella'r drafodaeth a'r cyfraniadau yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu. At ei gilydd, roedd agendâu'r cyfarfodydd yn gyson â'r rheiny a amlinellwyd yn y Blaengynllun Gwaith.

## 2.3 Cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd

Trefnir cyfarfodydd bob 6-8 wythnos er mwyn ystyried materion ac adroddiadau sydd wedi'u cynnwys yn ei Flaengynllun Gwaith. Cynhaliodd y Pwyllgor 7 cyfarfod ffurfiol yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25 a chynhaliwyd pob cyfarfod yn unol â'r darpariaethau a nodir yn Adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Er mwyn ategu'r gwaith a wnaed yn ystod cyfarfodydd ffurfiol, mae'r Pwyllgor hefyd yn cyflawni swyddogaethau craffu eraill megis Gorchwyl a Gorffen, sesiynau Datblygu Aelodau ac ymweliadau safle sydd o fewn ei gylch gwaith.

## 2.4 Monitro Perfformiad / Materion Strategol

Un o brif rolau'r Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd yw monitro perfformiad gwasanaethau a swyddogaethau o fewn ei gylch gwaith. Yn unol â hynny, mae'r Pwyllgor yn adolygu adroddiadau monitro perfformiad a gwahanol strategaethau a

chynlluniau i roi asesiad cytbwys o'r perfformiad ar draws y meysydd gwasanaeth perthnasol.

### 2.4.1 Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2023/24

Ym mis Hydref 2024 bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Cyngor 2023/24 a gynhyrchwyd yn unol â'r darpariaethau perthnasol o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Roedd yr adroddiad yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran 13 Amcan Llesiant y Cyngor yn erbyn cefndir o amgylchiadau digynsail yn sgil y pandemig coronafeirws, ynghyd â hunanasesiad y Cyngor yn erbyn gofynion perfformiad y flwyddyn ariannol flaenorol. Canolbwyntiodd y Pwyllgor ar yr Amcanion Llesiant canlynol sy'n dod o fewn ei gylch gwaith, sef:

| **Blaenoriaeth Thematig/Gwasanaeth** |
|---|
| Amcan Llesiant 1: Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd (Dechrau'n Dda) - |
| Blaenoriaeth Gwasanaeth: Addysg |
| Amcan Llesiant 2: Galluogi ein trigolion i fyw a heneiddio'n dda (Byw a Heneiddio'n Dda) |
| Blaenoriaeth Gwasanaeth: Tai |
| Amcan Llesiant 3 - Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus) |
| Blaenoriaeth Thematig: Adfer a Thwf Economaidd |
| Blaenoriaeth Thematig: Datgarboneiddio ac Argyfwng Natur |
| Blaenoriaeth Thematig: Diogelwch Cymunedol, Gwydnwch a Chydlyniant |
| Blaenoriaeth Gwasanaeth: Gwastraff |
| Blaenoriaeth Gwasanaeth: Priffyrdd a Thrafnidiaeth |
| Amcan Llesiant 4 - Ein Cyngor: Moderneiddio a datblygu ymhellach fel Cyngor cydnerth ac effeithlon. |
| Canlyniad: Sicrhau newid sefydliadol sy'n cefnogi targedau allweddol Carbon Sero Net |
| Atodiad 3 - Hunan-asesiad |
| Atodiad 5 - Data am ddangosyddion a mesurau sy'n gysylltiedig â phob Amcan Llesiant a Blaenoriaeth |

Adolygodd y Pwyllgor yr adroddiad a gofyn sawl cwestiwn am y camau gweithredu yn yr adroddiad blynyddol. Bu i'r swyddogion oedd yn bresennol fynd i'r afael â'r ymholiadau hyn, a oedd yn ymwneud yn bennaf â phaneli solar ar dai Cyngor, cyflwr priffyrdd a'u cynnal a'u cadw, ac allyriadau carbon.

**<u>Canlyniad:</u>**

Penderfynwyd yn unfrydol argymell bod Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2023/24 yn cael ei gymeradwyo.

### 2.4.2 Cynlluniau Busnes Is-adrannol Drafft 2025/26

Ym mis Ionawr 2025, bu'r Pwyllgor yn ystyried y Cynlluniau Busnes sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd ar gyfer 2025/26 fel a ganlyn:

- Seilwaith Amgylcheddol
- Lle a Chynaliadwyedd

- Gwella Gwasanaethau
- Hamdden
- Lle, Digidol a Pholisi

Roedd y cynlluniau hyn yn pennu'r camau a'r mesurau strategol i'w gweithredu ym mhob Is-adran er mwyn i'r Cyngor wneud cynnydd mewn perthynas â'i amcanion llesiant, ei flaenoriaethau thematig a blaenoriaethau'r gwasanaeth. Rhoddodd hyn gyfle i'r Pwyllgor ystyried y blaenoriaethau a amlinellwyd ar gyfer yr Is-adran a gwneud sylwadau yn eu cylch.

**Canlyniad:**

Adolygodd y Pwyllgor y camau a'r mesurau arfaethedig a phenderfynodd yn unfrydol fod y cynlluniau busnes oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor Craffu hwn yn cael eu cymeradwyo.

### 2.4.3 Adroddiadau Perfformiad 2024/25 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor

Yn unol â'r protocolau a sefydlwyd gan y Pwyllgor, cafodd adroddiadau monitro perfformiad chwarterol sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor eu dosbarthu drwy e-bost i aelodau fel a ganlyn:-

- Hydref 2024 – Monitro Perfformiad Chwarter 1 2024/25
- Chwefror 2025 – Monitro Perfformiad Chwarter 2 2024/25
- Ebrill 2025 – Monitro Perfformiad Chwarter 3 2023/24

Roedd yr adroddiadau yn galluogi aelodau i fonitro perfformiad mewn perthynas â'r Amcanion Llesiant sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor ac sy'n cyd-fynd â Strategaeth Gorfforaethol yr Awdurdod. Roedd y wybodaeth yn rhoi hunanwerthusiad o berfformiad yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol diwygiedig sydd wedi'i ymgorffori yn Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau godi unrhyw bryderon neu faterion yr oedd angen eu hystyried ymhellach yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor, yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Graffu.

## 2.5 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf

### 2.5.1 Adroddiadau Monitro'r Gyllideb

Yn unol â Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor, cafodd adroddiadau chwarterol ar y cyllidebau refeniw a chyfalaf adrannol a chorfforaethol eu hystyried mewn cyfarfod ffurfiol neu eu dosbarthu i'r aelodau fel a ganlyn:-

- Mehefin 2024 - mewn perthynas â’r sefyllfa gyllidebol ar 28 Chwefror 2024.
- Hydref 2024 - mewn perthynas â’r sefyllfa gyllidebol ar 30 Mehefin 2024.
- Hydref 2024 – Adroddiad Alldro 2023/24 ar sefyllfa ariannol diwedd y flwyddyn.
- Tachwedd 2024 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Awst 2024

Er mwyn rheoli nifer yr eitemau craffu ar agenda ffurfiol Ionawr 2025, dosbarthwyd yr adroddiad monitro cyllideb canlynol i'w adolygu trwy e-bost.

- Ionawr 2025 – mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Hydref 2024.

Roedd yr adroddiadau yn galluogi'r aelodau i fonitro gwariant ym mhob maes gwasanaeth a'r cynnydd a wnaed o ran unrhyw waith cyfalaf. Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau godi unrhyw bryderon neu faterion yr oedd angen eu hystyried ymhellach yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor, yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Graffu.

Cafodd nifer o ymholiadau, arsylwadau a sylwadau eu codi ynghylch y wybodaeth oedd yn yr adroddiadau monitro cyllideb, gan gynnwys:

- Y tan-ddefnydd o geir adrannol
- Tangyflawni incwm ar gyfer safleoedd trwyddedig
- Pryderon ynglŷn â'r cyllid annigonol gan Lywodraeth Ganolog a Llywodraeth Cymru er mwyn cynnal priffyrdd y Sir i lefel ddigonol.
- Ynni adnewyddadwy
- Costau ynni
- Gosod camerâu cerbydau gorfodi
- Casglu gwastraff
- Glanhau – ad-drefnu biniau

**Canlyniad:**

Ymatebwyd i'r cwestiynau a godwyd gan swyddogion priodol ar ddiwrnod y cyfarfodydd. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiadau a gyflwynwyd yn y cyfarfodydd ffurfiol.

Ystyriodd a derbyniodd y Pwyllgor y cwestiynau a godwyd mewn perthynas â'r adroddiad a ddosbarthwyd drwy e-bost yn y cyfarfod ar 14 Mawrth 2025, ynghyd â'r ymatebion a ddarparwyd – o dan yr Eitemau ar gyfer y Dyfodol [gweler Cofnod 7].

### 2.5.2 Strategaeth Cyllideb Refeniw 2025/26 tan 2027/28

Yn ogystal â monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf presennol, ymgynghorwyd â'r Pwyllgor hefyd ar Strategaeth Cyllideb Refeniw 2025/26 i 2027/28 yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2025. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r Strategaeth Cyllideb Refeniw arfaethedig ar gyfer 2025/26 i'r Pwyllgor, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2026/2027 a 2027/28.

Oherwydd y cyfyngiadau ariannol presennol wyneba'r Cyngor a'i adrannau, talodd y Pwyllgor gryn sylw i gynigion cyllidebu'r dyfodol.

Mynegwyd pryderon cryf yn y brif drafodaeth fod y pwysau parhaus ar y gyllideb yn cael effaith ar gyflwr y ffyrdd ledled y sir. Gwnaed llawer o sylwadau a oedd yn cydnabod anawsterau rheoli dirywiad y rhwydwaith priffyrdd gyda chyllideb a oedd yn gostwng yn barhaus. Wrth gymeradwyo ymdrechion yr adran Priffyrdd i wneud gwaith hanfodol gyda chyllideb mor fach, cydnabuwyd na fyddai toriadau pellach yn cael eu goddef. Wrth ddeall a derbyn cynigion y gyllideb yn yr adroddiad, cynigiwyd na fydd toriadau pellach i gyllideb y Gwasanaeth Cynnal a Chadw Priffyrdd.

**Canlyniad:**

Fel rhan o'r ymgynghoriad eang a gynhaliwyd gan yr Awdurdod ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2025/26, ystyriodd y Pwyllgor y Strategaeth a derbyn yr adroddiad. Wrth gael yr arbedion effeithlonrwydd arfaethedig, cynigiodd y Pwyllgor gafeat na fydd unrhyw doriadau pellach i'r gyllideb i'r Gwasanaethau Cynnal a Chadw Priffyrdd.

Bu i'r Cabinet, yn ystod ei gyfarfod cyllideb ym mis Chwefror 2025, addasu ei arbedion effeithlonrwydd yn seiliedig ar adborth o weithgareddau ymgynghori'r gyllideb ac argymhellion y Pwyllgor Craffu.

Roedd y newid arfaethedig mewn perthynas â chyllideb y Priffyrdd fel a ganlyn:-
*Priffyrdd – Gwaredu'r toriad arfaethedig ar sail adborth o seminarau'r aelodau ac argymhelliad gan y pwyllgor craffu*
*Gosod wyneb ffyrdd £100k, Glanhau cafnau £70k*

## 2.6 Adroddiadau cyn gwneud penderfyniadau

### 2.6.1 Strategaeth Farchogaeth

Ym mis Gorffennaf 2024, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad i'w ystyried a oedd yn rhoi diweddariad ar ddatblygiad y Strategaeth Farchogaeth, ac yn cynnwys cyfres o gamau gweithredu arfaethedig i'w cynnwys yn y ddogfen derfynol.

Dywedodd yr aelodau nad oedd y ddarpariaeth farchogaeth yn gyson ar draws y sir, ac mai prin oedd yr ardaloedd lle gellid marchogaeth yn ddiogel. Cydnabuwyd pryderon y gymuned farchogaeth ynghylch mannau diogel.

Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r agwedd ariannol wrth weithredu strategaeth y byddai angen ei hystyried a'i chyllidebu.

Roedd y swyddogion yn cytuno â theimladau'r Aelodau yn llwyr, ond rhoddwyd sicrwydd ganddynt y byddent yn gwneud eu gorau i gefnogi marchogaeth ledled y sir gyda'r gyllideb oedd ar gael.

**Canlyniad:**

Nododd y Pwyllgor y cynnydd a wnaed o ran datblygu'r Strategaeth Farchogaeth.

### 2.6.2 Strategaeth Wastraff Sir Gaerfyrddin – Gweithredu Glasbrint

Ym mis Gorffennaf 2024, cafodd y Pwyllgor er ystyriaeth adroddiad a amlinellai'r bwriad i newid i fethodoleg gasglu glasbrint ailgylchu Llywodraeth Cymru.

Er mwyn cyrraedd y targed disgwyliedig o 80% erbyn 2030, mynd i'r afael â materion halogi a darparu gwasanaeth cost-effeithiol, roedd yn ofynnol i'r Cyngor roi ail gam ei Strategaeth

Wastraff ar waith a fyddai'n cyflwyno system gasglu newydd i gynyddu cyfraddau ailgylchu, lleihau gwastraff, a chyd-fynd ag amcanion Llywodraeth Cymru.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r rhesymau a chyfres o opsiynau y manylwyd arnynt yn yr adroddiad.

Ymatebwyd i'r cwestiynau a godwyd gan y swyddogion a oedd yn bresennol, a'r prif ymholiadau oedd:-

- Gwersi a ddysgwyd o Gam 1
- Mynediad/allanfa i waith ailgylchu Nant-y-caws o'r A48.
- Cofrestr risg ariannol
- Canoli'r gwasanaeth i Nant-y-caws
- Pryderon ynglŷn â'r casgliad 4 wythnos arfaethedig ar gyfer bagiau du

**Canlyniad:**

Derbyniodd y Pwyllgor y Cynllun Gweithredu Glasbrint ac argymell i'r Cabinet fod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu mabwysiadu.

### 2.6.3 Strategaeth Coed a Choetir ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin

Ym mis Tachwedd 2024, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad i'w ystyried, oedd â'r Strategaeth Coed a Choetir ddrafft wedi'i hatodi.

Roedd yr adroddiad yn nodi bod y strategaeth yn pennu cyfrifoldebau'r Cyngor o ran coed a choetiroedd, sut caiff coed a choetiroedd eu rheoli, a pham, sut a ble gallai'r Cyngor gael rhagor o goed a choetiroedd ar y tir a reolai.

Rhoddodd yr Aelodau sylw arbennig i'r adroddiad a rhoi nifer o awgrymiadau. Rhoddodd swyddogion esboniadau i'r Pwyllgor er mwyn darparu rhesymau. Roedd Clefyd y Coed Ynn yn bryder sylweddol, yn enwedig effaith y gost ar ystâd y Cyngor. Rhoddodd y swyddogion esboniad cynhwysfawr ar sut roedd hyn yn cael ei reoli.

Cafwyd ymholiadau ac ymatebion mewn perthynas â'r canlynol:

- Newid Hinsawdd a'r opsiynau i ystyried rhywogaethau sy'n gallu gwrthsefyll gwyntoedd cryfion ac ati
- Datgoedwigo
- Cyfrifoldeb tirfeddianwyr preifat a sut roedd hyn yn cael ei reoli

**Canlyniad:**

Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ac argymell i'r Cabinet fod y Strategaeth Coed a Choetir ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei mabwysiadu.

## 2.7 Adroddiadau Ychwanegol ac Adroddiadau Diweddaru

### 2.7.1. Diweddariad ar gyfer Ystyried Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus Ychwanegol (PSPO) ar gyfer Gorchmynion Cŵn Sir Gaerfyrddin

Ym mis Gorffennaf 2024, cafodd y Pwyllgor adroddiad i'w ystyried a oedd yn diweddaru'r Aelodau ar faterion oedd yn ymwneud â Gorchmynion Cŵn PSPO Sir Gaerfyrddin. Bu i'r Pwyllgor, yn ei gyfarfod ar 24 Tachwedd 2022, argymell cyflwyno gwaharddiad ledled y sir ar gŵn yn mynd i gaeau chwaraeon wedi'u marcio a chyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig am y drosedd o beidio â gallu codi baw eich ci.  Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r aelodau a'r opsiynau oedd ar gael i'r Awdurdod yn seiliedig ar gyngor cyfreithiol.

Adolygodd y Pwyllgor yr adroddiad gyda brwdfrydedd, gan holi am yr hysbysiadau cosb benodedig a gorfodi PSPO. Pwysleisiodd y swyddogion eu bod yn dibynnu ar y cyhoedd i roi manylion cywir i'r Cyngor am berchnogion cŵn anghyfrifol.

**Canlyniad:**

Bu i'r Pwyllgor, wrth gael yr adroddiad, awgrymu bod Swyddogion yn gweithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned i ddylunio arwyddion safonol i'w defnyddio ar draws y Sir i hysbysu'r cyhoedd am yr ardaloedd sy'n destun y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus a'r hyn sy'n ofynnol.
Bu i'r Pwyllgor argymell i'r Cabinet y dylid cymeradwyo'r opsiwn a argymhellir i fynd i'r afael â materion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â chŵn fel y manylwyd yn yr adroddiad.

### 2.7.2 Adolygiad o'r Strategaeth Barcio

Ym mis Hydref 2024, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a roddai wybodaeth i'r Aelodau Craffu am yr adolygiad o Strategaeth Barcio Sir Gaerfyrddin.

Cafwyd ymholiadau gan yr Aelodau mewn perthynas â gorfodi parcio ar linellau melyn dwbl. Ymatebodd y swyddogion yn unol â hynny.  Hefyd, gofynnwyd a fyddai'r mannau parcio i Gerbydau Nwyddau Trwm yn gallu cael eu hystyried.  Cytunodd y swyddogion a dweud y gellid cynnwys hyn a byddai'n rhan o'r Adolygiad o'r Strategaeth Barcio.

**Canlyniad:**

Yn dilyn ymholiad ynghylch ardaloedd parcio ar gyfer Cerbydau Nwyddau Trwm, dywedodd y Swyddogion y byddai hyn yn rhan o'r Adolygiad o'r Strategaeth Barcio.

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad.

### 2.7.3 Yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i gyflymu'r defnydd o ynni adnewyddadwy ar draws ei sylfaen asedau

Ym mis Tachwedd 2024, derbyniodd y Pwyllgor i'w ystyried, adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth fanwl am yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i gyflymu'r defnydd o ynni adnewyddadwy ar draws ei sail asedau. Roedd yr adroddiad yn cynnwys y rhwystrau presennol ac yn sôn am ddatblygu posibiliadau gosod technolegau ynni adnewyddadwy yn y dyfodol.

| |
|---|
| **Canlyniad:**<br><br>Wrth ystyried yr adroddiad, cyflwynwyd gan aelodau'r pwyllgor nifer o awgrymiadau i swyddogion yn tynnu sylw at nifer o fentrau amrywiol y gallai'r Cyngor eu hystyried ar gyfer datblygiad ynni adnewyddadwy posibl o fewn ei ystâd. Rhoddodd y swyddogion ystyriaeth i'r awgrymiadau.<br><br>Diolchodd yr aelodau i'r swyddogion am y cyflwyniad cynhwysfawr a'u gwaith tuag at ymgysylltu ag ynni adnewyddadwy a nodi'r adroddiad. |

### 2.7.4 Adroddiad cynnydd – Adolygiad Gorchwyl a Gorffen ar Dipio Anghyfreithlon

Ym mis Tachwedd 2024, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad i'w ystyried, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu saith argymhelliad Adroddiad Tipio Anghyfreithlon y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Yn unol â'r Protocol Ymchwiliadau, derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yr argymhellion fel y'u nodwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, ac fe'i derbyniwyd gan y Cabinet.

Roedd yr adroddiad yn nodi, cyn yr Adolygiad Gorchwyl a Gorffen yn 2021/22, fod nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon wedi cyrraedd 4,800, ers yr Adolygiad cynhaliwyd nifer o gamau gweithredu drwy weithgarwch gorfodi a gwell cyfathrebu ac ar ddiwedd y llynedd roedd cyfradd y digwyddiadau tipio anghyfreithlon wedi gostwng yn sylweddol i ychydig dros 3,000. Roedd yr aelodau'n falch o gael nodi bod y ffigurau hyn yn nodi gostyngiad amlwg mewn achosion o dipio anghyfreithlon yn ystod y 12-18 mis diwethaf.

| |
|---|
| **Canlyniad:**<br><br>Nododd y Pwyllgor yr adroddiad. |

### 2.7.5 Adroddiad Datganiad Blynyddol 2024 y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd

Ym mis Ionawr 2025, derbyniodd y Pwyllgor i'w ystyried Adroddiad Datganiad Blynyddol 2024 y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd. Mae Adroddiadau Datganiad Blynyddol y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau bob Hydref, i nodi cyflwr a pherfformiad y rhwydwaith priffyrdd, sut mae wedi newid ers blynyddoedd blaenorol, ac mae'n cynnwys trafod lefelau ac opsiynau buddsoddi.

Roedd yr Adroddiad Blynyddol hwn yn rhoi sylw i'r grwpiau ased canlynol:

- Priffyrdd (ffyrdd cerbydau, troedffyrdd a llwybrau beicio.
- Pontydd a Strwythurau.
- Goleuadau Priffyrdd a Goleuadau Traffig.

Mynegodd y Pwyllgor bryderon difrifol fod cyflwr priffyrdd Sir Gaerfyrddin yn gwaethygu, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Fe wnaethant adolygu'r adroddiad a chodi sawl cwestiwn. Mewn ymateb, nodwyd bod timau'n gweithio'n galed i gynnal ac atgyweirio'r rhwydwaith ffyrdd, ond bod prinder cyllid yn peri heriau sylweddol.

Cymeradwyodd yr Aelodau y fenter ailgylchu cewynnau oedd â'r nod o drawsnewid un o feysydd rheoli gwastraff a gwella gwaith cynnal a datblygu seilwaith cynaliadwy ar yr un pryd.

Codwyd pryderon am adran Rheoli Draenio yr adroddiad, yn enwedig a allai'r rhwydwaith draenio ymdopi ag effeithiau newid yn yr hinsawdd. Roedd cyflwr y rhwydwaith o dan y ffyrdd yn destun pryder, ac roedd rhai strwythurau'n methu.

| **<u>Canlyniad:</u>**<br><br>Cafodd y Pwyllgor y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd - Datganiad Blynyddol 2024. |
|---|

### 2.7.6 Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Drafft ar gyfer De-orllewin Cymru

Ym mis Mawrth 2025, cafodd y Pwyllgor er ystyriaeth y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Drafft ar gyfer De-orllewin Cymru am 2025-2030, ac roedd wedi cael ei ddatblygu ar ran Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru, gan gynnwys fframwaith polisi manwl a chynllun cyflawni buddsoddiad ar gyfer ardaloedd Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro ac ardaloedd Dinas a Sir Abertawe.

Nododd yr Aelodau fod ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft ar gyfer De-orllewin Cymru yn fyw ar hyn o bryd a byddai ar waith tan 6 Ebrill 2025. Roedd dogfennau'r ymgynghoriad ynghlwm wrth yr adroddiad.

Gwnaeth yr Aelodau nifer o sylwadau, a'r prif bwyntiau oedd:

- prinder pwyslais ar warchod hen lwybrau rheilffyrdd,
- Cynllun uchelgeisiol iawn, pryderon am gyllido'r holl gynigion
- Gwasanaethau bws rhanbarthol

Roedd yr Aelodau, gan gydnabod y byddai prinder arian yn her o ran cyflawni'r cynllun, ac mewn perthynas â therfynu'r prosiect HS2, cynigiwyd bod y Pwyllgor yn anfon llythyr i Lywodraeth Cymru yn mynegi pwysigrwydd bod cyllid canlyniadol o brosiect HS2 yn cael ei sicrhau a bod dosraniad teg yn cael ei wneud mewn perthynas â buddsoddiad yn Sir Gaerfyrddin. Eiliwyd y cynnig hwn. Pe bai'r cyllid oedd yn ddyledus gan HS2 yn dod i law, y teimlad oedd y byddai'r prosiectau yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn llawer mwy cyraeddadwy yn ariannol.

**<u>Canlyniad:</u>**

Nododd y Pwyllgor y cynllun trafnidiaeth rhanbarthol drafft ar gyfer De-orllewin Cymru a phenderfynu ysgrifennu i Lywodraeth Cymru yn mynegi pwysigrwydd bod cyllid canlyniadol o brosiect HS2 yn cael ei sicrhau a bod dosraniad teg yn cael ei wneud mewn perthynas â buddsoddiad yn Sir Gaerfyrddin.

Anfonodd y Cadeirydd lythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru ar 11 Ebrill.

Mr K. Skates MS,
Cabinet Secretary for Transport and North Wales
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales
*(By e-mail only)*

Dear Mr Skates MS,

**RE: HS2 CONSEQUENTIAL FUNDING**

I write to you as Chair of Carmarthenshire County Council's Place, Sustainability and Climate Change Committee.

At its meeting on 14th March 2025, the Committee considered the Draft Regional Transport Plan for South West Wales, during the debate Members raised that following the UK Governments decision to cease the development of the HS2 rail scheme, it appears that there have yet to be any commitments from the UK Government to allocate monies to Wales as required under the Barnett consequential funding formula.

I am kindly requesting that this matter is vigorously pursued, in order that the historically underfunded rail network in West Wales is able to experience much needed investment in order to address this significant inequity and in doing so catalyse economic regeneration, carbon reduction and social inclusion to, from and within the County.

I would further urge, that whilst there is an inequitable disparity between rail funding in England and Wales, this impact is magnified in our County, particularly when compared to the circa £1bn investment being made on the South East Wales Metro and Valleys Lines programme. This presents a real opportunity to equalise considerable inequity by delivering on a number of priorities for rail investment that will significantly improve the lives of people within Carmarthenshire.

Your attention on this matter is greatly appreciated.

Yours sincerely

*K. Madge*

Councillor Kevin Madge
Chair of Place, Sustainability and Climate Change

Roeddid yn disgwyl ymateb ar hyn o bryd.

### 2.7.7 Gwaith a wnaed mewn perthynas â gwerthu fêps anghyfreithlon a gwerthu fêps i rai dan oedran

Ym mis Mawrth 2025 cafodd y Pwyllgor adroddiad i'w ystyried a oedd yn rhoi diweddariad ar y gwaith a wnaed gan Safonau Masnach mewn ymateb i bryderon cynyddol ynghylch y cynnydd mewn cynhyrchion fepio anghyfreithlon a'u hargaeledd i blant. Cynhaliwyd y prosiect hwn gan Safonau Masnach i roi sylw i'r risgiau iechyd cysylltiedig â fepio, i sicrhau cydymffurfiaeth reoleiddiol, i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, gyda'r nod o ddiogelu iechyd a llesiant poblogaeth Caerfyrddin, yn enwedig ei hieuenctid.

Roedd yr aelodau oedd yn poeni am y mater hwn yn ddiolchgar am yr adroddiad, a oedd yn ddefnyddiol, ac roedd yn rhoi sicrwydd am ei fod yn cynnwys gwybodaeth am y darpariaethau diogelu oedd ar waith. Fodd bynnag, gan fod fepio ar gynnydd, roedd yn faes yr oedd angen ei fonitro. Esboniodd swyddogion fod Cynllun Gweithredu yn y Gymdogaeth ar waith a bod ymgyrch cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn ddiweddar a dynnai sylw at waredu fêps yn anghyfreithlon. Rhoddid sylw yn y Cynllun Gweithredu i deledu cylch cyfyng, mannau/ardaloedd problemus o ran sbwriel, a'r gwaith parhaus gyda thimau 'Cymoni Cymuned' i helpu i gasglu sbwriel. Pe bai'n mynd i'r pen, roedd peryg y gallai'r sawl y gwelid hwy'n gollwng sbwriel dderbyn hysbysiad cosb benodedig a chael dirwy o hyd at £125.

| **<u>Canlyniad:</u>**<br><br>Nododd y Pwyllgor yr adroddiad |
|---|

### 2.7.8 Adolygiad o'r Gwasanaeth Gwastraff

Ym mis Mawrth 2025, yn dilyn cais y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2025, cafodd y Pwyllgor i'w ystyried adroddiad a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Adolygiad o'r Gwasanaeth Gwastraff ac roedd yn cynnwys y rhesymau dros yr heriau gafwyd wrth gasglu gwastraff yn ystod y gwyliau banc diweddar.

Roedd yr aelodau'n ymwybodol fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn paratoi ac yn cynllunio ar gyfer newid sylweddol i'r gwasanaeth gwastraff yn 2026. Byddai'r newid i'r gwasanaeth yn golygu newid pa mor aml roedd y casgliad gweddilliol yn digwydd o bob 3 wythnos i bob 4 wythnos. Ni fyddai'r gwasanaeth ailgylchu yn gasgliad cymysg mwyach, gyda chasgliad gwydr a bwyd ar wahân yn unol â methodoleg casglu Glasbrint Llywodraeth Cymru o ddidoli yn ymyl y ffordd, ynghyd â datblygu a throsglwyddo i Ddepo Canolog newydd.

Dywedodd yr aelodau y byddai gwell cyfathrebu â thrigolion yn helpu i leihau'r rhwystredigaeth roedd colli casgliadau'n achosi. Esboniodd y swyddogion mai tudalen we 'tarfu ar wastraff' y Cyngor oedd y dull gorau o ddarlledu gwybodaeth gyfredol, gan y byddai cyfathrebu â phob Cynghorydd Sir yr effeithir arnynt bob dydd yn her ac yn defnyddio llawer o adnoddau.

Dywedwyd bod llawer o Gynghorwyr wedi cael nifer sylweddol o gŵynion am gasgliadau dros gyfnod Nadolig 2024, ac felly ceisiwyd sicrwydd na fyddai'r anawsterau'n codi eto yn ystod Pasg 2025. Dywedodd y Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol, er mai amhosibl fyddai rhoi sicrwydd na fyddai unrhyw anawsterau wrth gasglu gwastraff o'r 91,000 o aelwydydd dros ŵyl y banc, fe ddywedodd fod nifer o gamau wedi'u cymryd er mwyn gwella'r casgliadau dros ŵyl banc y Pasg. Y prif heriau oedd bod dim rhwymedigaeth contractiol i weithio naill ai ar ŵyl banc na'r penwythnos.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau fod y ddarpariaeth gwasanaeth Gŵyl Banc yn cael ei hadolygu, a bod y tîm yn gweithio'n agos gyda'r Undebau Llafur er mwyn cael ateb tymor byr a thymor hir i roi sicrwydd am y gwasanaeth.

- Roedd pryderon ynglŷn â'r cynnydd amlwg oedd wedi bod mewn tipio anghyfreithlon yn ddiweddar.
- Codwyd cwestiynau ynglŷn â rheoli'r aelwydydd nad oeddent yn cydymffurfio â'r gofynion ailgylchu a/neu a oedd yn rhoi nifer fawr o fagiau allan i'w casglu.
- Gofynnwyd am gyngor ar sut roedd cartrefi'n gwaredu gwastraff anifeiliaid anwes.

**Canlyniad:**

Nododd y Pwyllgor yr adroddiad.

# 3. Gweithgarwch Craffu Arall

## 3.1 Gorchwyl a Gorffen

Pwrpas y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yw cyfrannu at ddatblygu polisi newydd neu ymgymryd â darn o waith craffu ymchwiliol. Mae grwpiau o'r fath wedi bod yn allweddol wrth gryfhau datblygiad polisi / rolau craffu ymchwiliol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Yn dilyn gohirio'r adolygiad, ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd, yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr 2023, y ddogfen Cynllunio a Chwmpasu ar gyfer adolygiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen o swyddogaeth trwyddedu bridio cŵn y tîm Iechyd Anifeiliaid Materion Defnyddwyr a Busnes. Derbyniodd y Pwyllgor y ddogfen yn unfrydol a chomisiynu grŵp gorchwyl a gorffen yn swyddogol i gynnal adolygiad â ffocws, a wnaeth ddechrau ym mis Chwefror 2024 ac a oedd yn cynnwys yr aelodaeth drawsbleidiol ganlynol.

Roedd aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys 6 aelod etholedig a benodwyd i adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor yn ei gyfanrwydd, cyn belled ag y bo modd:-

| | |
|---|---|
| **Plaid Cymru:** | Y Cynghorydd Arwel Davies<br>Y Cynghorydd Gareth Thomas<br>Y Cynghorydd Karen Davies (Is-gadeirydd) |
| **Y Grŵp Annibynnol:** | Y Cynghorydd Sue Allen |
| **Grŵp Llafur:** | Y Cynghorydd Tina Higgins<br>Y Cynghorydd Kevin Madge (Cadeirydd) |

Cwrddodd y Grŵp 7 gwaith rhwng Chwefror 2024 a Mawrth 2025, gan gynnal cyfweliadau â thystion allweddol yn bersonol a thrwy Teams yn ogystal â chynnal ymweliadau safle. Arweiniodd hyn at ddatblygu 5 argymhelliad lleol a 7 argymhelliad cenedlaethol.

Bydd yr argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu i'w hystyried ym mis Gorffennaf 2025 gyda'r bwriad bod y Cabinet yn eu hystyried ym mis Medi 2025.

## 3.2 Ymweliadau Safle

Aeth y Panel ar 1 ymweliad safle yn ystod y flwyddyn

- Arolygiad Erydiad y Glannau – 15 Hydref 2024

  Yn y Pwyllgor Craffu a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2024, penderfynwyd cynnal ymweliadau safle i weld y gwaith oedd yn cael ei wneud yn Sir Gâr i ddiogelu'r arfordir a'r ardaloedd yr ystyrid eu bod mewn perygl ac yr oedd angen gwneud gwaith ynddynt (gweler Cofnod 3).

  Dyma'r amserlen:-

  ***9:45am cyfarfod yn Neuadd y Sir – bws i adael Neuadd y Sir am 10:00am***
  ***Lleoliadau:-***

  - ***Bynea yn Llanelli i weld y llwybr arfordirol sy'n erydu.***
  - ***Porth Tywyn***
  - ***Lleoliad ychydig y tu allan i Gydweli, i weld yr amddiffynfeydd môr sy'n diogelu cefnwlad Pen-bre.***
  - ***Bws i ddychwelyd i Neuadd y Sir erbyn 1pm***

Daeth pump o'r deuddeg aelod ar yr ymweliad safle a drefnwyd. Yn ôl adborth yr aelodau, roedd yr ymweliad yn ddefnyddiol, ac roeddent wedi dysgu rhagor am y gwaith oedd angen ei wneud.

## 3.3 Sesiynau Datblygu

Yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25, gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i'r sesiynau/seminarau datblygu canlynol a drefnwyd gan yr Awdurdod:-

| Dyddiad | Sesiwn Datblygu / Seminar |
|---|---|
| 22/05/2024 | Cyflwyniad i Waith Crwner Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin |
| 14/06/2024 | Cyflwyniad i Thinqi - System Rheoli Dysgu Newydd |
| 10/07/2024 | Cynnal a Chadw'r Priffyrdd a Gosod Wyneb Newydd |
| 25/07/2024 | Cytundebau Adran 106 |
| 11/09/2024 | Diogelu'r Amgylchedd - Safonau Bwyd ac Iechyd y Cyhoedd |
| 26/09/2024 | Diogelu Corfforaethol |
| 09/10/2024 | Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Bentre Awel |
| 21/10/2024 | Trafnidiaeth Cymru – Cyfarfod Briffio Masnachfreinio Bysiau – Blaenoriaethau allweddol |
| 29/10/2024 & 30/10 | Ymwybyddiaeth Ffrindiau Dementia |
| 12/11/2024 | Meithrin Seibergadernid: Diogelu Dyfodol Digidol Ein Cyngor |
| 20/11/2024 | Paratoi ar gyfer y Gaeaf |
| 10/12/2024 | Rôl a Phrif Ddyletswyddau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| 11/12/2024 | Diweddariad Blynyddol gan y Prif Swyddog Tân |
| 29/01/2025 | Rheoli Maetholion - Heriau a Chanllawiau Cenedlaethol |
| 05/02/2025 | Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol |
| 12/02/2025 | Swyddogion Etholedig - Sesiwn Briffio ynghylch Diogelwch Personol |
| 12/02/2025 | Datblygiad Un Blaned |
| 18/02/2025 | Gweithdy Hunanasesu'r Swyddogaeth Graffu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Sesiwn 1 |
| 24/02/2025 | Gweithdy Hunanasesu'r Swyddogaeth Graffu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Sesiwn 2 |

Yn ogystal â'r sesiynau / seminarau Datblygu Corfforaethol uchod, aeth yr aelodau i sawl seminar ar y gyllideb a gynhaliwyd yn ystod mis Ionawr fel rhan o broses ymgynghori'r Cyngor ar Gyllideb Refeniw 2025-26 a'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd.

# 4. Effaith

## 4.1 Sut mae Craffu wedi gwneud gwahaniaeth eleni?

Mae'r mwyafrif o'r penderfyniadau a wneir gan yr Awdurdod yn cael eu gwneud gan y Cabinet. Mae'r broses graffu'n rhoi cyfle i'r 65 o Gynghorwyr eraill nad ydynt yn rhan o'r weithrediaeth ddylanwadu ar y penderfyniadau hynny a gweithredu fel 'cyfaill beirniadol". Mae Craffu Cyn Gwneud Penderfyniadau yn arbennig o ddylanwadol yn hyn o beth gan ei fod yn rhoi cyfle i Bwyllgorau Craffu ystyried a rhoi sylwadau ar bolisïau a materion sy'n dod i'r amlwg cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet. Hefyd mae Craffu yn helpu i sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac yn annog cydweithio effeithiol â chyrff allanol.

Mae Craffu yn chwarae rôl allweddol wrth wella'r gwasanaethau a ddefnyddir gan bobl a phlant Sir Gaerfyrddin. Hefyd mae'r broses graffu yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac yn annog cydweithio effeithiol â chyrff allanol. Mae cyfraniad preswylwyr lleol, sefydliadau a phartneriaid yn y gymuned yn rhan bwysig o'r broses graffu ac mae ein Cynghorwyr wedi ymrwymo i ymateb i sylwadau a phryderon preswylwyr.

Mae Craffu Cyn Gwneud Penderfyniadau yn rhoi cyfle i bob Pwyllgor Craffu roi mewnbwn cyn i'r adroddiadau gael eu hystyried gan y Cabinet a dyma lais y bobl. Yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25, mae'r Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd wedi cael effaith gadarnhaol mewn sawl ffordd, gan gynnwys:-

- Tynnu sylw at y materion mewn perthynas â chyflwr y priffyrdd, ac yn sgil hynny, newid arbedion effeithlonrwydd arfaethedig ar gyfer cyllideb y flwyddyn nesaf o ran priffyrdd
- Craffu parhaus ar newidiadau i'r system wastraff.
- Trafnidiaeth

## 5. Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Mae'r swyddogaeth graffu yn rhoi cyfle i'r cyhoedd gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Awdurdod lle gall aelodau o'r cyhoedd ofyn am i eitemau gael eu gosod ar agenda cyfarfod y Pwyllgor. Mae'r rhai sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin, neu sy'n berchen ar fusnes neu'n cael eu cyflogi yn y sir, hefyd yn cael gofyn cwestiynau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu.

Er na dderbyniodd y Pwyllgor unrhyw awgrymiadau o bynciau posibl gan y cyhoedd yn ystod 2024/25, roedd Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor yn cynnwys ystod o bynciau a oedd yn gofyn am ymgynghori/cyfranogi cyhoeddus.

Er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o Bwyllgorau Craffu a gallu'r cyhoedd i gyflwyno pynciau i'w trafod, cyhoeddir Blaengynlluniau Gwaith Pwyllgorau Craffu yr Awdurdod, a manylion ynghylch sut y gall y cyhoedd gymryd rhan, ar wefan yr Awdurdod:-

https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/pwyllgorau-a-chyfarfodydd/craffu/

Yn ystod blwyddyn y cyngor, rhoddodd is-adran Gyfathrebu yr Awdurdod gymorth marchnata digidol i'r swyddogaeth Graffu gan fynd ati i hyrwyddo manylion eitemau ar gyfer y dyfodol a allai fod o ddiddordeb i'r cyhoedd mewn ymgais i gynyddu ymwybyddiaeth a chyfranogiad y cyhoedd. Gwahoddir y cyhoedd, drwy nifer o wahanol ffyrdd, i gymryd rhan yn y broses Graffu ac i dynnu sylw at unrhyw faterion sy'n peri pryder.

## 6. Heriau

Roedd y tîm Glanhau a'r tîm Priffyrdd yn parhau i fod dan bwysau drwy gydol blwyddyn y cyngor oherwydd y galw am wasanaethau. Serch hynny, mae'r adrannau wedi addasu a datblygu atebion arloesol yn ystod amgylchiadau na welwyd eu tebyg o'r blaen i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'r Pwyllgor wedi parhau i fod yn adeiladol yn ei rôl o ran craffu ar berfformiad, sydd wedi hwyluso'r adran ac wedi cyfrannu'n gadarnhaol at bolisïau a phenderfyniadau. Mae wedi bod yn fater o gydbwysedd i'r Pwyllgor, rhwng cyflawni ei ddyletswyddau craffu a pheidio ag effeithio ar ariannu gwasanaethau rheng flaen.

## 7. Gwaith yn y Dyfodol

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod blwyddyn y cyngor a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar bynciau lle bydd cyfraniadau'r Aelodau'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth. Er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o amser y cyfarfodydd, mae'r Pwyllgor yn awyddus i barhau i weithredu egwyddorion y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu er mwyn cael proses graffu syml a phenodol.

Bydd y Pwyllgor yn datblygu ei Flaengynllun Gwaith ar gyfer blwyddyn y cyngor 2025/26 gan ddefnyddio'r adroddiadau cyn penderfyniadau o Flaengynllun Gwaith y Cabinet yn ogystal ag ystyried materion perthnasol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

Er mwyn gwella swyddogaeth graffu'r Awdurdod, bydd aelodau'n parhau i fynd i sesiynau datblygu, yn gofyn am gyngor y swyddogion lle y bo'n briodol ac yn manteisio'n llawn ar drafodaeth anffurfiol cyn cyfarfodydd.

## 8. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae'r cymorth a roddir i swyddogaeth graffu Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn yr Is-adran Gweinyddiaeth a'r Gyfraith yn Adran y Prif Weithredwr. Mae'r cymorth a roddir i'r swyddogaeth graffu yn cynnwys y canlynol:-

- llunio ac anfon agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu yn unol â'r Blaenraglenni Gwaith;
- darparu cymorth a chyngor cyfansoddiadol i'r Pwyllgorau Craffu ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod unrhyw faterion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu;
- rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau'r Cyngor a'i swyddogion;
- rheoli datblygiad strategol Craffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, a chyfarfodydd y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu gyda'r Cabinet;
- rhoi cyngor a chymorth yn y gwaith o weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, wrth i'r canllawiau gael eu cyhoeddi;
- rheoli cydlyniad a datblygiad Blaengynlluniau Gwaith y Pwyllgorau Craffu ar y cyd ag aelodau'r Pwyllgorau Craffu;
- rheoli a chydlynu gwaith adolygu'r swyddogaeth Graffu, gan gynnwys gweinyddu grwpiau gorchwyl a gorffen ym maes craffu, cynorthwyo i lunio adroddiadau ar y cyd â'r grwpiau, a chynorthwyo i weithredu a monitro'r adolygiadau a gwblhawyd.
- cynorthwyo â Rhaglen Datblygu Aelodau'r Pwyllgorau Craffu.

Am fwy o wybodaeth am Graffu yn Sir Gaerfyrddin gan gynnwys Blaenraglenni Gwaith, adroddiadau Gorchwyl a Gorffen ac Adroddiadau Blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: www.sirgar.llyw.cymru/craffu.

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu e-bostiwch craffu@sirgar.gov.uk.

## 9. Presenoldeb

Dangosir presenoldeb gan aelodau'r Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25 yn y tabl isod. Cynhaliwyd cyfanswm o saith cyfarfod yn ystod blwyddyn y cyngor.

| Aelod y Pwyllgor Craffu | Cyfarfodydd a fynychwyd | % |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Karen Davies | 5 | 71% |
| Y Cynghorydd Arwel Davies | 7 | 100% |
| Y Cynghorydd Colin Evans | 5 | 71% |
| Y Cynghorydd Neil Lewis | 6 | 86% |
| Y Cynghorydd Dorian Phillips | 4 | 57% |
| Y Cynghorydd Gareth Thomas | 4 | 57% |
| Y Cynghorydd Kevin Madge | 7 | 100% |
| Y Cynghorydd Peter Cooper | 1 | 14% |
| Y Cynghorydd Tina Higgins | 7 | 100% |
| Y Cynghorydd Shelly Godfrey-Coles | 2 | 29% |
| Y Cynghorydd Sue Allen | 7 | 100% |
| Y Cynghorydd John James (gadawodd ym mis Gorffennaf 2025) | 1 | 14% |
| Lle Gwag - Annibynnol | | |
| Lle Gwag - Annibynnol | | |
| Lle Gwag – Heb gysylltiad pleidiol (o fis Gorffennaf 2025) | | |

| **Dirprwyon** | **Cyfarfodydd a fynychwyd** |
|---|---|
| Y Cynghorydd Kim Broom | 1 |
| Y Cynghorydd Lewis Davies | 1 |
| Y Cynghorydd Mansel Charles | 1 |
| Y Cynghorydd Meinir James | 2 |
| Y Cynghorydd Phillip Warlow | 1 |
| **Aelodau'r Cabinet** | **Cyfarfodydd a fynychwyd** |
| Y Cynghorydd Aled. Vaughan Owen (Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd) | 5 |
| Y Cynghorydd Edward Thomas (Gwasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith) | 6 |

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Alun Lenny (Adnoddau) | 3 |
| Y Cynghorydd Carys Jones (Materion Gwledig, Cydlyniant Cymunedol a Pholisi Cynllunio) | 3 |